**ADRODDIAD I'R CYDBWYLLGOR**

**22 MEDI 2016**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Cyfarwyddwr Arweiniol /Cadeirydd Bwrdd Rheoli GwE |
| **Pwnc:** | Rhwydweithiau Rhanbarthol |

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Diweddaru'r aelodau ar drafodaethau'r Bwrdd Rheoli mewn perthynas â rôl y Rhwydweithiau Rhanbarthol.

## 2.0 Cefndir

2.1 Yn dilyn cyhoeddi'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru (Chwefror 2014), cafodd achos busnes yn manylu ar yr elfennau ychwanegol yn y Model Cenedlaethol nad yw staff craidd GwE yn ymgymryd â nhw ar hyn o bryd ei gyflwyno a'i gytuno gan y Cydbwyllgor (15 Gorffennaf 2015).

Roedd yr elfennau hyn yn cynnwys:

a) Cyngor a chefnogaeth i lywodraethwyr
b) Y Cyfnod Sylfaen
c) Swyddog Llwybrau Dysgu 14 – 19
d) Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Grant y Gymraeg mewn Addysg
e) Cydlynu strategaeth TGCh yn rhanbarthol
f) Cefnogaeth AD arbenigol

2.2 Cytunwyd y byddai'r Awdurdodau Lleol yn parhau i fod yn gyfrifol am gynllunio a chyflawni'r elfennau hyn, gyda'r Rhwydweithiau Rhanbarthol presennol yn cydweithio ar arwain yn rhanbarthol.

2.3 Cedwir £463,004 (11.5% o Gyllideb Graidd GwE, sy'n £4.097m) gan Awdurdodau Lleol i gyflawni elfennau a), e) ac f) uchod drwy gyfrwng y Rhwydweithiau Rhanbarthol.
Ariannir yr elfennau eraill sef b), c), a d) uchod ynghyd ag amryw o swyddogaethau gwella ysgolion eraill drwy'r elfen na chaiff ei dyrannu o'r Grant Gwella Addysg, cyfanswm o £3.953m.

**3.0 Ystyriaethau**

3.1 Roedd y Bwrdd Rheoli wedi adnabod yr angen i sicrhau eglurder mewn perthynas â rôl strategol y rhwydweithiau rhanbarthol a'u hatebolrwydd i'r Cydbwyllgor cyn arolygiad Estyn. Nododd Estyn bod y materion hyn wedi'u hadnabod cyn yr ymweliad, ond er hyn roedd argymhelliad 5 yn eu hadroddiad yn canolbwyntio'n benodol ar hyn, h.y. Egluro rôl strategol y rhwydweithiau rhanbarthol a'u hatebolrwydd i'r Cydbwyllgor.

3.2 Cynhaliodd y Bwrdd Rheoli weithdy i drafod rôl y rhwydweithiau ar 15 Gorffennaf 2016. Trafodwyd rôl y rhwydweithiau yn ogystal ag opsiynau o ran y model mwyaf effeithlon ac effeithiol i wneud cynnydd a chyflawni yn erbyn y cynllun busnes rhanbarthol.

3.3 Cynhelir trafodaethau pellach yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Rheoli i ddatblygu cynllun gweithredu er mwyn cytuno ar a gweithredu'r strwythur newydd ar gyfer y rhwydweithiau rhanbarthol.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cydbwyllgor:

4.1.1 Nodi cynnwys yr adroddiad

4.1.2 Cytuno ar gynnydd y Bwrdd Rheoli fel y nodir yn 3.3.

**5.0 Goblygiadau ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori a wnaed**

8.1 Roedd pob aelod o Fwrdd Rheoli GwE yn bresennol yn y Gweithdy Rhwydweithiau.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Wrth symud ymlaen i ddatblygu cynllun gweithredu dylid sicrhau mewnbwn priodol cyfreithiol o ran sefydlu'r broses atebolrwydd i'r Cyd-bwyllgor. Dim sylwadau pellach o ran priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Dim i'w ychwanegu at yr adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol